Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu yn y gwaith

## Prentisiaethau Coleg Caerdydd a'r Fro

**47 Heol Colcot**
**Y Barri**
**CF62 8HJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phrentisiaethau Coleg Caerdydd a’r Fro

Mae Coleg Caerdydd a’r Fro yn arwain partneriaeth o 19 is-gontractwr i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth Llywodraeth Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys darpariaeth y coleg ei hun, CCFC, Bosch Automotive, Brothers Constantinou, Coleg QS, Focus On, JGR Training, JTL, Kwikfit GB Ltd, More Training, NDGTA, Pengwin, People Plus, Remit, Safe and Secure, Sgil Cymru, Skillnet, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Tydfil Training, a WBTA. Mae’r rhwydwaith yn gwasanaethu cymuned amrywiol yn rhanbarth prifddinas Cymru, gan weithio gyda phartneriaid allweddol i gyflwyno prentisiaethau. Mae’r darparwr yn gweithio gyda 1,000 o gyflogwyr, gan gynnwys busnesau rhyngwladol, busnesau cenedlaethol a mentrau bach i ganolig, sy’n cynrychioli tua 76% o gyflogwyr. Mae Prentisiaethau Coleg Caerdydd a’r Fro yn cyflwyno prentisiaethau i ryw 2,500 o ddysgwyr. Maent yn cyflwyno prentisiaethau ar lefelau 1 i 5 yn y sectorau canlynol:

- Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal
- Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid
- Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu
- Adeiladu, cynllunio a’r amgylchedd adeiledig
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- Manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid
- Gwallt a harddwch
- Lletygarwch ac arlwyo
- Hamdden, teithio a thwristiaeth
- Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi
- Busnes, gweinyddu a’r gyfraith

Cyflwynir tua 64% o’r ddarpariaeth ar lefel 3 ac yn uwch, ac mae 71% o brentisiaid yn yr ystod oedran 16-18. Ar hyn o bryd, mae 95% o brentisiaid sylfaen, 93% o brentisiaid a 65% o brentisiaid uwch yn dilyn prentisiaethau mewn sectorau blaenoriaethol. Mae tua 85% o’r ddarpariaeth mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu ac adeiladu, cynllunio a’r amgylchedd adeiledig. Mae 80% o ddysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol, a 35% o ardaloedd ag amddifadedd uchel.

## Crynodeb

Ar draws Coleg Caerdydd a'r Fro a'i rwydwaith o ddarparwyr partner, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau ymarferol yn y gweithle. Maent yn datblygu eu gwybodaeth theori yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth ymgymryd ag ystod o dasgau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio medrau ymarferol wrth ymgymryd â thasgau bob dydd yn y gweithle. Ar draws y rhwydwaith, daw llawer o ddysgwyr yn aelodau gwerthfawr o staff eu cyflogwr ac maent yn cyfrannu'n dda at eu busnes. O ganlyniad i'w partneriaethau, mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u hunanhyder a'u hunan-barch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig am eu rhaglenni ac yn gwybod pa asesiadau a thasgau y mae angen iddynt eu gwneud er mwyn gwneud cynnydd. Dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o aseswyr ac athrawon yn cynllunio asesiadau a sesiynau i ffwrdd o'r gwaith yn dda ac mae llawer ohonynt yn cynorthwyo dysgwyr yn dda i wneud cynnydd. Yn gyffredinol, caiff gwaith ysgrifenedig dysgwyr ei gyflwyno'n dda ac mae'n elwa ar gael adborth ysgrifenedig adeiladol gan aseswyr. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae'r adborth hwn yn arwynebol ac nid yw'n rhoi arweiniad clir ar yr hyn y mae angen i ddysgwyr ei wneud i wella. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael lefelau cryf o gymorth personol gan eu haseswyr. Mae dysgwyr ag angen dysgu ychwanegol yn cael lefelau cryf o gymorth yn y gweithle ac wrth ymgymryd â gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith.

Mae'r darparwr yn gweithio'n arbennig o dda gyda nifer uchel o gyflogwyr sy'n cyflwyno rhaglenni ar draws llawer o feysydd dysgu. Mae'r darparwr wedi bod yn hynod effeithiol yn sicrhau hyfforddiant prentisiaeth ar gyfer nifer o gyflogwyr proffil uchel. Mae tîm uwch reolwr y darparwr wedi ymrwymo'n gryf i ddysgu yn y gwaith a phrentisiaethau ac mae'n darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer cyflwyno'i gontract prentisiaeth Llywodraeth Cymru. Mae uwch reolwyr wedi bod yn rhagweithiol yn ffurfio partneriaethau strategol allweddol, yn enwedig yn rhanbarth y brifddinas gyda rhanddeiliaid allweddol i ehangu dealltwriaeth a manteision prentisiaethau. Mae'r darparwr yn defnyddio gweithdrefnau hunanwerthuso cynhwysfawr ac mae ganddo ffocws clir ar wella deilliannau dysgwyr, er nad yw arweinwyr canol bob amser yn ddigon clir am gryfderau allweddol a meysydd i'w gwella. Mewn lleiafrif o achosion, mae dysgwyr yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i gwblhau eu fframwaith, yn enwedig y rhai ar brentisiaethau uwch.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau llwyddiant fframwaith a chwblhau'r fframwaith yn amserol mewn meysydd sy'n tanberfformio, yn enwedig prentisiaethau uwch

A2 Sicrhau bod athrawon ac aseswyr yn dysgu oddi wrth ei gilydd i wella'u harfer

A3 Sicrhau bod hunanwerthuso gan arweinwyr canol yn llywio gwelliant effeithiol ar draws y rhwydwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith yn ymwneud â'r cymorth y mae'r darparwr yn ei roi i ddysgwyr ag angen dysgu ychwanegol a'r ystod eang o raglenni sydd ar gael i ddysgwyr a chyflogwyr, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar draws darpariaeth Prentisiaethau Coleg Caerdydd a'r Fro a'i rhwydwaith cyflwyno, mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd y maent yn ei wneud tuag at gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall eu targedau unigol a'u nodau dysgu cytunedig ar gyfer cwblhau gwaith ysgrifenedig ac asesiadau ymarferol.

Yn ystod eu prentisiaethau, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol cryf yn gysylltiedig â gwaith a gwybodaeth gref am theori. O ganlyniad, daw llawer ohonynt yn aelodau gwerthfawr o staff eu cyflogwr, ac maent yn datblygu ystod eang o fedrau yn gysylltiedig â diwydiant sy'n eu galluogi i gynnal cyflogaeth a datblygu eu gyrfaoedd.

Mae llawer o ddysgwyr yn frwdfrydig a hyderus wrth ateb cwestiynau am eu gwaith ac wrth gyfathrebu â'u haseswyr, eu cyflogwyr a'u cyfoedion. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos eu bod yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn gadarn a gallant esbonio'n glir sut mae theori yn cysylltu â'u gweithgareddau yn y gweithle.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u medrau siarad a gwrando'n dda, o gymharu â'u man cychwyn. O ganlyniad, gallant addasu eu hymagwedd at ddelio â gwahanol bobl a sefyllfaoedd yn hyderus. Yn yr achosion gorau, maent yn dangos y medrau hyn yn dda wrth ryngweithio â chwsmeriaid a rheolwyr.

Mae datblygiad medrau yn fwyaf effeithiol pan gaiff dysgwyr mwy abl eu herio i adeiladu ar ganlyniadau eu hasesiad cychwynnol trwy gwblhau cymwysterau medrau hanfodol uwchlaw’r hyn sy’n ofynnol gan eu fframwaith. Yn yr achosion gorau, lle mae gan ddysgwyr brocsïau, caiff targedau ar gyfer gwella mewn llythrennedd a rhifedd eu cynllunio gan ddefnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol. At ei gilydd, mae tua hanner y dysgwyr yn ymwybodol o’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr sy’n mynychu sesiynau i ffwrdd o’r gwaith yn dangos lefelau da o ymgysylltu ac agweddau cadarnhaol at ddysgu, mewn gwersi theori a medrau fel ei gilydd. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn lleoliadau grŵp yn parchu ei gilydd ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau eu cyfoedion at y profiad dysgu cyffredinol. Mae sgyrsiau dysgwyr yn ystod gweithgareddau pâr yn canolbwyntio ar waith, ac mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn parhau i fod yn sylwgar drwyddi draw.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o safon addas, o leiaf, ac mae ychydig ohonynt yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uwch. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn strwythuro’u gwaith yn dda ac yn defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg yn briodol. Mewn sesiwn ymarferol i ffwrdd o’r gwaith, roedd dysgwyr yn cysylltu theori ag arfer yn dda wrth ddefnyddio offer profi trydanol i brofi cylchedau â gwifrau newydd. Cofnodon nhw’r canlyniadau yn gywir a pharu’r rhain â safonau diwydiant i brofi a sicrhau cydymffurfiad.

Mae llawer o ddysgwyr yn uchelgeisiol ac yn benderfynol i ddatblygu o fewn eu sefydliadau. Mae ychydig iawn o ddysgwyr wedi elwa ar gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol, ac mae’r cyfle hwn wedi cymell a datblygu’r dysgwyr hyn ymhellach.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos cymhwysedd galwedigaethol cadarn ac yn dangos blaengaredd da yn y gweithle. Er enghraifft, mae prentis uwch mewn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi cyfieithu ei holl ddogfennau gwaith allanol i’r Gymraeg er budd y cleientiaid sy’n siarad Cymraeg yn eu sefydliad. Mae dysgwyr sy’n gwasanaethu ac yn atgyweirio cerbydau modur yn cysylltu ac yn cymhwyso theori a chysyniadau ag arfer gweithle yn glir wrth ddangos medrau ymarferol cryf ar draws ystod o weithgareddau gwaith, er enghraifft wrth wasanaethu cerbydau yn unol â manylebau gweithgynhyrchwyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio technoleg ddigidol yn dda wrth ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau dysgu ac asesu. Gallant lywio trwy blatfformau dysgu digidol a phortffolios electronig yn dda lle defnyddir y rhain. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn llythrennedd digidol, er enghraifft trwy wella’u medrau mewn defnyddio taenlenni i greu siartiau Gantt i safon uchel. Mae dysgwyr eraill yn dangos dealltwriaeth dda o sut gallant ddefnyddio meddalwedd i gynllunio a monitro prosiectau dylunio ac adeiladu, fel adeiladu tŷ. Mae dysgwyr eraill wedi gwella a defnyddio medrau taenlen datblygedig yn dda ar gyfer prosiectau ac asesiadau cyfrifyddu ariannol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwella’u hymwybyddiaeth o werth medrau Cymraeg yn y gweithle wrth ddilyn modiwlau dysgu Prentis-Iaith ar ddechrau eu rhaglen. Prin yw’r dysgwyr sy’n siarad Cymraeg yn rhugl, ac ychydig iawn o’r dysgwyr hyn sy’n dewis cwblhau eu hasesiadau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2021-2022, cyflawnodd llawer o ddysgwyr eu fframwaith prentisiaeth sylfaen neu'u fframwaith prentisiaeth, a chyflawnodd hanner o ddysgwyr prentisiaeth uwch eu fframwaith llawn. O gymharu â data deilliannau cenedlaethol cyhoeddedig ar gyfer yr un flwyddyn, roedd cyfraddau llwyddiant yn y fframwaith lefel sylfaen yn gryf iawn mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal a busnes, gweinyddu a'r gyfraith. Roedd cyfraddau llwyddiant prentisiaethau hefyd yn gryf mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, tra bod cyfraddau llwyddiant ar raglenni tebyg mewn peirianneg ac adeiladu yn cyd-fynd yn fras â data cenedlaethol cyhoeddedig. Roedd cyfraddau llwyddiant fframwaith yn wannach ar raglenni lefel uwch mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal a busnes, gweinyddu a'r gyfraith. Mewn lleiafrif o achosion, mae dysgwyr yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i gwblhau eu fframwaith, yn enwedig y rhai ar brentisiaethau uwch.

**Lles, cymorth ac arweiniad**

Mae gan y darparwr strwythurau cadarn ar waith i gefnogi lles dysgwyr, ac mae'n rhoi cymorth ac arweiniad addas iddynt.

Mae'r darparwr yn annog a chynorthwyo dysgwyr i ofalu am eu lles a'u diogelwch yn eu gweithleoedd.

Mae'r rhan fwyaf o aseswyr ac athrawon yn trafod agweddau ar les yn briodol gyda dysgwyr yn ystod eu rhaglenni. Er enghraifft, maent yn ymdrin â thestunau fel iechyd meddwl, diogelu a radicaleiddio yn briodol yn ystod sesiynau adolygu cynnydd dysgwyr.

Mae'r darparwr yn hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr yn dda trwy ystod eang o weithgareddau, digwyddiadau a deunyddiau hyrwyddo. Mae ganddo bolisïau a chanllawiau perthnasol sy'n canolbwyntio'n glir ar faterion yn gysylltiedig â lles dysgwyr, fel bwlio ac aflonyddu, iechyd a diogelwch a diogelu. Mae ganddo bartneriaethau effeithiol ag asiantaethau allanol fel yr heddlu a'r bwrdd iechyd i nodi dysgwyr o dan ddeunaw oed y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae'r darparwr yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer ei athrawon a'i aseswyr, gan gynnwys is-gontractwyr, i'w cynorthwyo â chefnogi lles dysgwyr. Er enghraifft, mae cynhadledd flynyddol wedi'i threfnu gan y darparwr yn cynnwys gweithdai ar destunau fel ymwybyddiaeth iechyd meddwl, aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn wedi helpu cynyddu gwybodaeth a hyder staff mewn trafod y testunau hyn gyda dysgwyr.

Mae'r darparwr yn nodi anghenion cymorth yr holl ddysgwyr yn briodol, gan sicrhau y gallant gael y cymorth perthnasol o ddechrau eu prentisiaethau. Mae'r darparwr yn olrhain cynnydd dysgwyr yn dda ac yn casglu ystod eang o wybodaeth y gellir ei defnyddio i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael y cymorth cywir sydd ei angen arnynt, er enghraifft lefelau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol dysgwyr, eu cymhwysedd yn y Gymraeg, dyddiadau cwblhau disgwyliedig a'u hanghenion dysgu.

Mae'r darparwr yn defnyddio'i rwydweithiau cyflogwyr yn dda i gynorthwyo dysgwyr i ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth amgen addas, lle mae angen. Mae hyn wedi helpu dysgwyr a oedd yn ystyried tynnu'n ôl o'u rhaglen i aros mewn hyfforddiant a gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu fframwaith prentisiaeth.

Mae’r darparwr yn rhoi ystyriaeth dda iawn i anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr ac yn sicrhau bod cymorth teilwredig yn cael ei ddarparu, yn ôl yr angen. Mae’r darparwr a’r partneriaid yn datblygu cynlluniau cymorth ar gyfer dysgwyr sydd wedi’u teilwra i’w hanghenion unigol. Mae’r cynlluniau hyn yn mynd i’r afael ag ystod eang o heriau ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys teithio, baich gwaith, rhyngweithio cymdeithasol a chymorth yn y gweithle.

Mae’r darparwr wedi datblygu gweithdrefnau effeithiol i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion cymorth unigol cymhleth. Yn yr achosion hyn, maent yn gweithio’n agos â’r dysgwr a’r cyflogwr. Mae cyflogwyr wedi bod yn hynod gefnogol yn datblygu eu dealltwriaeth o anghenion dysgwyr. Maent wedi addasu eu harferion yn effeithiol, lle bo’n briodol i gefnogi eu dysgwyr yn effeithiol. Oherwydd y cynllunio gofalus a theilwredig hwn, mae anghenion unigol dysgwyr wedi cael eu diwallu’n arbennig o dda. O ganlyniad, mae’r dysgwyr hyn nid yn unig wedi aros mewn hyfforddiant, ond wedi cwblhau gwaith i safon uchel iawn. Maent wedi datblygu eu hyder a’u hunan-barch ac yn dod yn aelodau hynod werthfawr o staff eu cyflogwr.

Mae gan y darparwr weithdrefnau priodol ar gyfer gwirio addasrwydd ei staff ei hun ac is-gontractwyr sydd mewn cysylltiad â dysgwyr. Mae’n cadw cofnodion priodol o’r aelodau staff hynny sydd â gwiriadau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn sicrhau bod staff wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, lle mae angen.

Mae gan y darparwr a’i is-gontractwyr bolisïau a gweithdrefnau addas yn gysylltiedig â diogelu ac maent yn rheoli materion diogelu’n briodol. Mae bron pob un o’r dysgwyr a’r staff yn dangos dealltwriaeth gadarn ynghylch gweithdrefnau diogelu a gyda phwy y dylent gysylltu os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Mae’r darparwr yn sicrhau bod pob un o’r staff, gan gynnwys is-gontractwyr, yn ymgymryd â hyfforddiant ar-lein ar feysydd diogelu perthnasol, ac yn ei ddiweddaru, er enghraifft ymwybyddiaeth iechyd meddwl, aros yn ddiogel ar-lein a diogelu oedolion sydd mewn perygl. Yn ychwanegol, mae staff â chyfrifoldebau arwain am ddiogelu wedi ymgymryd â hyfforddiant gorfodol priodol i’w galluogi i gyflawni eu rolau. Mae trefniadau’r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae’r darparwr yn gwrando ar farn dysgwyr yn dda trwy ystod gynhwysfawr o ddulliau, yn cynnwys fforymau dysgwyr ac arolygon dysgwyr, sy’n ennyn cyfraddau ymateb cryf. Mae’r darparwr yn defnyddio ymatebion i fynd i’r afael â materion sy’n peri pryder i ddysgwyr. Er enghraifft, cadarnhaon nhw fod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o ‘Atal’ (Prevent) a radicaleiddio ond bod eu dealltwriaeth ohonynt yn gyfyngedig. I fynd i’r afael â hyn, maent wedi creu adnoddau, yn cynnwys rhaglen diwtorial gynlluniedig ar-lein, i wella dealltwriaeth dysgwyr o Atal.

**Addysgu, hyfforddi, asesu a phrofiadau dysgu**

Mae partneriaeth Prentisiaethau Caerdydd a’r Fro yn cynllunio’i harlwy yn llwyddiannus mewn ffordd strategol a chydweithredol. Mae’r ddarpariaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol trwy ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac anghenion y farchnad lafur yn ofalus. Mae’r ddarpariaeth yn apelio’n gadarnhaol at ddysgwyr ifanc, ac mae 40% o’r holl brentisiaid rhwng 16 ac 19 oed.

Mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol a chenedlaethol i ddatblygu darpariaeth deilwredig i ddiwallu eu hanghenion gweithlu penodol. Mae galw mawr am y cyfleoedd prentisiaeth hyn yn y diwydiant awyrennau, mewn gwasanaethau ariannol a'r diwydiannau creadigol, ac yn cynnwys trefniadau recriwtio cystadleuol trylwyr. Mae cyflogwyr ac aseswyr yn gweithio gyda'i gilydd i baru darpar ddysgwyr i'r cyfleoedd clodfawr hyn. Mae'r darparwr wedi ymestyn y model 'partneriaeth ar y cyd' yn llwyddiannus i'r diwydiannau creadigol. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi nifer fach o bobl ifanc i ddilyn prentisiaeth tra'n gweithio'n hyblyg ar draws gwahanol sefydliadau yn y sector creadigol. Mae rhaglenni prentisiaeth y darparwr yn gynyddol lwyddiannus o ran denu pobl ifanc o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt, yn cynnwys cymunedau sy'n amrywiol ethnig.

Defnyddir cyfleoedd dysgu ychwanegol yn dda i ymestyn a herio prentisiaid i ddatblygu gwybodaeth a chymhwysedd ymarferol ar lefel uwch. Mae nifer o ddysgwyr wedi llwyddo mewn cystadlaethau medrau, ac er 2022, mae'r holl bartneriaid ar draws y rhwydwaith yn enwebu eu dysgwyr mwyaf medrus ar gyfer cystadlaethau a gwobrau cenedlaethol. Mae prentis diweddar, yr estynnwyd ei fedrau a'i hyder trwy weithio tuag at ennill gwobr aur am ei fedrau atgyweirio corff cerbyd mewn cystadleuaeth ryngwladol, yn siarad fel model rôl i ysbrydoli prentisiaid eraill.

Ar draws y bartneriaeth, mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn ffurfio a chynnal perthnasoedd gweithio cefnogol yn llwyddiannus gyda'u dysgwyr. Maent yn ystyried ac yn ymateb yn hyblyg i arddulliau dysgu ffafriedig dysgwyr ac yn gofalu i sicrhau bod dysgwyr yn gyfforddus.

I ychydig o brentisiaid, mae newidiadau staffio ymhlith eu hathrawon a'u haseswyr yn golygu bod profiadau dysgwyr yn ddigysylltiad neu fod gweithgareddau ac asesiadau wedi'u gohirio. Mae hyn yn cyfrannu at y ffaith fod ychydig o ddysgwyr yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth yn llwyddiannus.

Mae athrawon ac aseswyr y darparwr yn ymarferwyr profiadol mewn diwydiant sy'n elwa'n helaeth ar eu profiadau eu hunain i roi addysgu a dysgu mewn cyd-destunau gweithle go iawn ar gyfer dysgwyr. Mae hyn yn galluogi athrawon ac aseswyr i amlygu cysylltiadau ag arfer diwydiant, sy'n helpu atgyfnerthu dysgu eu prentisiaid. Yn ystod asesiadau yn y gwaith, yn ogystal â chyfarfodydd adolygu cynnydd, mae aseswyr yn nodi'n fedrus agweddau ar weithgareddau gweithlu dysgwyr sy'n bodloni meini prawf asesu. Maent hefyd yn helpu dysgwyr i nodi ble gallant ymestyn eu harfer i ddatblygu eu dysgu a'u medrau ymhellach, a bod o fudd i'w cyflogwyr, yn y pen draw.

Mewn sesiynau theori, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau dysgu sy'n cynnwys cyfuniad effeithiol o weithgareddau, sy'n aml yn cynnwys gwaith unigol a gwaith grŵp. Mae'r gweithgareddau hyn yn fuddiol wrth adeiladu ar sesiynau blaenorol ac yn helpu i ddatblygu ac atgyfnerthu cysyniadau a medrau newydd yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i gynnal ymgysylltiad y rhai sy'n dysgu a chwblhau tasgau'n gyflymach. O ganlyniad, terfir ar fomentwm y dysgu ymhlith y prentisiaid hyn gan gyfnodau o aros am eu cyfoedion.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod fuddiol o ddulliau i wirio cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys cwisiau ar-lein, tasgau ysgrifenedig, gweithgareddau ymarferol

a holi ar lafar. Yn ystod gwaith unigol a gwaith grŵp, mae athrawon yn mynd o gwmpas dysgwyr i wirio eu cynnydd a darparu cymorth ac anogaeth werthfawr. Mae ychydig o athrawon ac aseswyr yn defnyddio holi treiddgar yn fedrus i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach dysgwyr. Er enghraifft, mae prentisiaid yn trafod sut bydd falf reoli yn gweithio o dan wahanol amodau fel rhan o system lywio wedi’i chynorthwyo gan bŵer hydrolig. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw holi gan athrawon yn annog dysgwyr i feddwl yn ddyfnach neu nid yw’n sicrhau bod pob un o’r dysgwyr yn ymgysylltu ac yn chwarae rhan weithredol mewn sesiynau holi ac ateb.

Mae bron pob un o’r aseswyr ac athrawon yn rhoi adborth defnyddiol ar lafar i’w dysgwyr wyneb yn wyneb yn rheolaidd. Mewn ychydig o achosion, mae aseswyr yn darparu adborth ysgrifenedig craff a manwl sy’n mynd i’r afael ag agweddau penodol ar waith y dysgwr ac yn myfyrio’n gyfannol ar ddatblygiad y dysgwr a’r hyn mae angen iddo’i wneud i wella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion lle mae adborth ysgrifenedig yn briodol, mae’n rhy arwynebol ac nid yw’n esbonio beth mae angen i ddysgwyr ei wneud i wella, yn ddigon da.

Ar draws y rhwydwaith o is-gontractwyr, ceir pocedi bach o ddarpariaeth sy’n galluogi dysgwyr yn llwyddiannus i ddatblygu a defnyddio’r Gymraeg fel rhan annatod o’u dysgu yn y gwaith. Er enghraifft, yn y cyfryngau creadigol a digidol, mae ymarferwyr ac adnoddau ar gael i alluogi’r nifer fach o ddysgwyr i ddewis defnyddio’u Cymraeg yn hyderus mewn cymaint o’u gwaith ag y maent yn teimlo’n gyfforddus ynddo. Yn ddiweddar, mae’r darparwr wedi ehangu ei ddarpariaeth i helpu’r rhan fwyaf o brentisiaid newydd nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg ddatblygu lefel sylfaenol o allu trwy ddilyn cwrs ‘Ymwybyddiaeth’ Prentisiaith. Fodd bynnag, ar draws y ddarpariaeth yn gyffredinol, prin yw’r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio neu ddatblygu eu Cymraeg yng nghyd-destun eu dysgu galwedigaethol a’u rolau swydd.

Mae addysgu targedig ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr yn effeithiol. Mae trefniadau addysgu yn amrywio’n briodol ar draws y bartneriaeth i ategu gwahanol fodelau cyflwyno prentisiaethau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau’n ddigon gofalus i fod yn berthnasol i’w dysgwyr a’u gweithlu. At ei gilydd, mae athrawon ac aseswyr yn llwyddo i annog lleiafrif o ddysgwyr y mae angen iddynt ennill cymwysterau llythrennedd a rhifedd, i astudio’r rhain ar lefel uwchlaw’r isafswm sy’n ofynnol gan eu fframwaith prentisiaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae partneriaeth Prentisiaethau Coleg Caerdydd a’r Fro yn arwain partneriaeth hirsefydledig o is-gontractwyr i gyflwyno’i chontract prentisiaeth Llywodraeth Cymru. Newidiwyd enw’r ddarpariaeth yn ddiweddar i adlewyrchu’n well y ffaith fod y ddarpariaeth prentisiaethau yn rhan o’r coleg, gan roi mwy o eglurder i ddarpar ddysgwyr a chyflogwyr. Mae’r bartneriaeth yn cynnwys trefniadau is-gontractio ag 19 o ddarparwyr, i gyflwyno’r contract yn uniongyrchol, mewn partneriaeth ag is-gontractwyr eraill a thrwy weithredu fel asiant rheoli. Mae’r darparwr a’i is-gontractwyr yn gweithio gyda llawer o gyflogwyr, gan gynnwys mentrau rhyngwladol, cenedlaethol a mentrau bach a chanolig yn y de ddwyrain, yn bennaf.

Mae gan uwch dîm arweinyddiaeth y darparwr ffocws cryf ar raglenni prentisiaeth ac yn cydnabod bod hyn yn rhan allweddol o'i ddarpariaeth. Mae'r darparwr yn rhagweithiol yn y fforwm rhanbarthol a'r partneriaethau medrau rhanbarthol i godi proffil prentisiaethau a helpu mynd i'r afael â bylchau o ran medrau. Mae uwch arweinwyr yn wybodus ynghylch blaenoriaethau lleol a chenedlaethol Llywodraeth Cymru ac anghenion medrau cyflogwyr lleol a chenedlaethol. Mae'r darparwr wedi gweithio'n galed gyda'r awdurdod lleol i hyrwyddo a chreu cyfleoedd prentisiaeth. Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n dda â chyflogwyr newydd sy'n cynnig cyfleoedd prentisiaeth i ddiwallu eu hanghenion recriwtio a hyfforddi, yn enwedig yn rhanbarth y brifddinas, er enghraifft cyflwyno prentisiaethau yn y sector ariannol.

Ar draws y bartneriaeth, mae dysgwyr a staff yn elwa ar gael cyfle i ddefnyddio ystod o adnoddau ar-lein a ddatblygwyd gan y darparwr arweiniol, ac yn cael eu darparu ganddo. Caiff is-gontractwyr gyfle i elwa ar gymorth â chyflwyno darpariaeth medrau hanfodol a chymorth arbenigol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, lle cânt eu nodi. Mae cydweithio cryf ar draws y bartneriaeth wedi helpu cynorthwyo dysgwyr sydd efallai wedi colli eu swyddi neu wedi wynebu anawsterau yn eu gweithleoedd i sicrhau cyflogaeth amgen er mwyn gallu parhau â'u prentisiaethau.

Mae blaenoriaethau strategol y bartneriaeth yn cysylltu a llywio cynllunio gweithredol yn briodol ar draws yr holl is-gontractwyr. Mae hyn yn helpu darparu cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr a chyflogwyr elwa ar gryfderau cyflwyno is-gontractwyr unigol.

Mae'r darparwr a'i is-gontractwyr yn gweithio tuag at ddiwylliant o werthoedd ar y cyd, wedi'u seilio ar ddidwylledd, tryloywder a chymorth, sy'n ategu perthnasoedd gweithio effeithiol rhwng partneriaid. Mae gan y darparwr strwythur rheoli clir sy'n cyd-fynd yn agos â rolau a chyfrifoldebau diffiniedig. Mae cyfathrebu ar draws partneriaid yn hynod gryf gyda chyfarfod rheolaidd a ffocysedig yn adolygu agweddau allweddol fel rheoli contractau, perfformiad dysgwyr ac ansawdd. Mae gan y darparwr aelod o staff cyswllt sy'n gweithio'n agos gydag is-gontractwyr, a dyma'r prif unigolyn cyswllt. Mae'r weithdrefn hon yn arwain at amseroedd ymateb cyflym i gwestiynau neu pan fydd angen cyngor neu arweiniad.

Mae'r darparwr yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd cynhwysfawr sy'n cynnwys ystod o archwiliadau ansawdd a dangosyddion perfformiad ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau allweddol ar gyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag is-gontractwyr i adolygu ansawdd a pherfformiad dysgwyr yn gyffredinol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fuddiol wrth nodi dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â chyflawni, ac anawsterau y gallai is-gontractwyr fod yn eu cael. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn darparu cyfleoedd pwrpasol ar gyfer rhannu arfer dda ac i is-gontractwyr gael cymorth gan y rhwydwaith lle mae angen.

Pan nodir tanberfformio, mae'r darparwr yn rhagweithiol o ran rhoi'r cymorth sydd ei angen, gan barhau'n sensitif i amgylchiadau unigol is-gontractwyr. Yn ystod y weithdrefn hon, mae'r darparwr yn cytuno ar gynllun gwella ansawdd gyda'i is-gontractwr, sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Gallai cymorth ychwanegol fod ar ffurf cyngor ac arweiniad gan staff arbenigol.

Mae'r darparwr yn cynnal hunanwerthusiad blynyddol cynhwysfawr o'i ddarpariaeth prentisiaethau. Mae is-gontractwyr yn cynnal eu hunanasesiad a'u cynllun datblygu ansawdd eu hunain, sy'n llywio'r ddogfen drosfwaol. Mae hunanwerthuso'n

canolbwyntio’n glir ar ddeilliannau a phrofiadau dysgwyr ac yn nodi meysydd defnyddiol a thargedau defnyddiol ar gyfer datblygu. Defnyddir gwybodaeth allweddol o’r cofnod hunanwerthuso i lywio’r cynllun datblygu ansawdd. Mae’r cynllun hwn yn cynnwys y prif heriau i’r darparwr, er bod mwy o fanylion wedi’u cynnwys o fewn dogfennau’r is-gontractwyr eu hunain. Mewn ychydig o feysydd, nid yw’r dogfennau trosfwaol yn ddigon craff o ran nodi agweddau allweddol yn glir, fel ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a’r asesu ar draws meysydd dysgu a phartneriaid. O ganlyniad, nid yw arweinwyr canol bob amser yn ddigon clir ynghylch cryfderau allweddol a meysydd i’w gwella ar draws eu darpariaeth.

Mae hunanasesiad y darparwr yn bwydo i mewn i gynllunio dysgu proffesiynol a datblygir rhaglen fuddiol o weithgareddau i gefnogi meysydd y nodwyd bod angen eu gwella. Mae’r rhain yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ynglŷn â sut i wella cynnydd a pherfformiad cyffredinol dysgwyr, a sesiwn ar ddatblygu medrau, gosod targedau clyfar ac adborth effeithiol i ddysgwyr. Mae gan is-gontractwyr rôl weithredol mewn cynllunio a chyflwyno dysgu proffesiynol, yn enwedig mewn rhannu arfer orau, lle cafodd ei nodi. Mae digwyddiad blynyddol, sef ‘WBL-fest’, yn cynnwys sesiynau targedig i ddatblygu medrau addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth am themâu cyfoes, fel gwrth-hiliaeth a hunaniaeth o ran rhywedd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i gyflogwyr, ac yn ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr ac aseswyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, sesiynau theori a sesiynau hyfforddi ymarferol
- yn ymweld ag ystod eang o ddysgwyr yn eu gweithleoedd i arsylwi eu medrau gweithle, arsylwi asesiadau, adolygu eu gwaith theori a chyfarfod â'u cyflogwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu, olrhain a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd rheolwyr a staff, cyfarfodydd ag is-gontractwyr a phartneriaid allweddol a chyfarfodydd â chyflogwyr, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  31/01/2024